Oriel Gelf **Glynn Vivian** Art Gallery

OFFSITE / ODDI AR Y SAFLE

Artist Preswyl Glynn Vivian: Bob Gelsthorpe

Hydref - Rhagfyr 2015

Mae rhaglen 'Artist Preswyl' Oriel Gelf Glynn Vivian yn gyfle i'r gymuned ryngweithio, cyfnewid a gweithio gydag artist, ac i'r artist fyfyrio, ymchwilio a chydweithio. Ein hartist yn ystod mis Hydref – Rhagfyr 2015 yw Bob Gelsthorpe.

Artist, awdur a chyd-gyfarwyddwr yn Bit Studios yw Bob Gelsthorpe. Ffydd yw'r prif ysgogwr yn ei ymchwil sy'n ymchwilio drwy ddarlunio, perfformiad, ffotograffiaeth, cerflunwaith a phrosiectau curadurol. Mae ei waith yn defnyddio hynodweddau arfer y stiwdio ac yn chwyddo'u hystyr.

Llun: Bob Gelsthorpe, *Unite, Divide (planter version), Spider Plants, Compost, OSB,* 2014, Trwy garedigrwydd yr artist

Dewch â'ch Taflunydd eich hun

Nos Wener 2 Hydref, 7 – 9pm

I gyd-fynd â Gŵyl Gerddoriaeth a Goleuadau Abertawe, bydd yr artist preswyl Bob Gelsthorpe a chydweithwyr yn gwahodd artistiaid a'u taflunwyr i ddigwyddiad Dewch â'ch Taflunydd Eich Hun cyntaf Abertawe am un noson yn unig.

Cysyniad yw BYOB a ddatblygwyd gan Rafael Rozendaal, a hyd yn hyn, cafwyd oddeutu 200 o nosweithiau BYOB ym mhedwar ban byd. Uwchlaw pob dim, mae'r cysyniad yn syml, yn hawdd ac yn hwyl.

Stiwdio Agored AiR
Dydd Gwener 16 Hydref a 13 Tachwedd, 1 – 2pm
Dewch i gwrdd â'r artist yn ei stiwdio.

'Say what you want, say what you mean'
Dydd Gwener 4 Rhagfyr, 2 - 4pm
Dewch i gwrdd yn y YMCA am weithdy wedi'i arwain gan drafodaeth anffurfiol ynghylch ysgrifennu am y celfyddydau gweledol, naill ai eich rhai eich hun neu eraill neu ar gyfer cynigion. Yn ddelfrydol ar gyfer myfyrwyr